

AWDURDOD Y PARC CENEDLAETHOL

29 Gorffennaf 2015

Yn bresennol: Y Cynghorydd M James (Cadeirydd)
Mr A Archer, Mr D Ellis, y Cynghorydd P Harries, Mrs G Hayward,
y Cynghorydd ST Hudson, y Cynghorydd Mrs L Jenkins, y
Cynghorydd R Kilmister, y Cynghorydd RM Lewis, y Cynghorydd
PJ Morgan, y Cynghorydd R Owens, Mr AE Sangster, Mrs M
Thomas, y Cynghorydd A Wilcox a'r Cynghorydd M Williams.

*[Cyrhaeddodd y Cynghorydd ML Evans a Ms C Gwyther yn ystod
y drafodaeth ar y Datganiad o Gyfrifon Drafft (gweler Cofnod 6)]*

(Swyddfeydd APC, Parc Llanion, Doc Penfro: 10.00am -12.15pm)

1. Ymddiheuriadau

Derbyniwyd ymddiheuriad am fethu â bod yn bresennol oddi wrth y
Cynghorydd D Rees.

2. Datgelu Buddiant

Ni ddatgelwyd unrhyw fuddiant.

3. Cofnodion

Cafodd cofnodion y cyfarfodydd a gynhaliwyd ar 17 Mehefin 2015 (y
Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol a'r Cyfarfod Cyffredin) eu cyflwyno i'w
cadarnhau a'u llofnodi.

Ymddiheurodd y Prif Weithredwr am fod aelodaeth y Pwyllgor Safonau yn
anghywir yng nghofnodion y Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol. Roedd Mrs J
Wainwright wedi'i phenodi yn Aelod annibynnol o'r Pwyllgor, ac roedd Mr J
Evans wedi ymddiswyddo. Tynnwyd sylw hefyd at y ffaith y dylai enw'r
Cynghorydd R Owens gymryd lle'r Cynghorydd M James.

PENDERFYNWYD:

- a) bod cofnodion y Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol a gynhaliwyd ar 17
Mehefin 2015 yn cael eu cadarnhau a'u llofnodi yn amodol ar y newidiadau
uchod;
- b) bod cofnodion y Cyfarfod Cyffredin o'r Awdurdod a gynhaliwyd ar 17
Mehefin 2015 yn cael eu cadarnhau a'u llofnodi.



4. Materion sy'n codi

Cofnod 7 (Cyfarfod Cyffredin APC) – Gwerthiant Arfaethedig Bwthyn y Ceidwad Calch, Y Parrog, Trefdraeth

Dywedodd y Prif Weithredwr fod Llywodraeth Cymru wedi dweud eu bod yn fodlon i'r adeilad gael ei werthu am lai na gwerth y farchnad.

NODWYD.

5. Adroddiadau o gyfarfodydd Pwyllgorau'r Awdurdod

Cafodd yr adroddiadau canlynol o gyfarfodydd nifer o Bwyllgorau'r Awdurdod eu cyflwyno i'r Aelodau i'w hystyried / er gwybodaeth:

- (i) Y Pwyllgor Rheoli Datblygu a gynhaliwyd ar 27 Mai 2015 ac 17 Mehefin 2015;
- (ii) Cyd-grŵp Craffu'r Parciau Cenedlaethol ar yr economi a gynhaliwyd ar 6 Mai 2015 ac 8 Gorffennaf 2015;
- (iii) Y Pwyllgor Adolygu Gweithredol a gynhaliwyd ar 1 Gorffennaf 2015.

PENDERFYNWYD:

- (a) bod adroddiad y Pwyllgorau Rheoli Datblygu a gynhaliwyd ar 27 Mai 2015 ac 17 Mehefin 2015 yn cael eu derbyn, a
- (b) bod adroddiadau Cyd-grŵp Craffu'r Parciau Cenedlaethol ar yr economi a'r Pwyllgor Adolygu Gweithredol a gynhaliwyd ar y dyddiadau y cyfeirir atynt uchod yn cael eu mabwysiadu.

6. Datganiad o Gyfrifon 2014/2015 Drafft

Dechreuodd y Rheolwr Cyllid drwy esbonio'r broses ar gyfer cytuno ar y cyfrifon. Roedd wedi awdurdodi rhyddhau'r Datganiad o Gyfrifon Drafft i'w Harchwilio ar 30 Mehefin 2015. Cafodd y Datganiad o Gyfrifon Drafft eu darparu i'w darllen gan y cyhoedd ar 1 Gorffennaf 2015 a chafodd ei roi gerbron y Pwyllgor Adolygu Gwasanaethau Archwilio a Chorfforaethol ar 15 Gorffennaf 2015. Yna byddai'r Datganiad o Gyfrifon archwiliedig yn cael ei gyflwyno i'r Aelodau ar 23 Medi gan Swyddfa Archwilio Cymru, ac yn cael ei lofnodi gan y Cadeirydd a'r Prif Weithredwr.

Soniwyd bod y cyfrifon cryno yn dangos bod y cyllid refeniw a'r gyllideb gyfalaf yn is na'r flwyddyn flaenorol, yn bennaf oherwydd y gostyngiad yng Ngrant y Parc Cenedlaethol a'r Ardoll. Fodd bynnag, roedd cynnydd yn yr incwm a gynhrychir yn lleol yn y rhan fwyaf o feysydd. Nododd fod y gostyngiad mewn gwerthiant pren yn deillio o newid yn y driniaeth gyfrifyddu gan fod gwerthiant mewnol wedi'i gynnwys yn y ffigurau yn y blynyddoedd blaenorol ond roedd hynny bellach yn groes i arfer gorau.



Gan droi at wariant, roedd y brif gost yn ymwneud â gweithwyr, ac roedd y ffigur hwn ychydig yn uwch oherwydd costau setliadau'r gweithwyr a oedd wedi gadael yr Awdurdod trwy ddiswyddiad ac ymddeol yn gynnar. Roedd y costau cyflog i lawr £105,000 mewn ymateb i'r hinsawdd ariannol bresennol. Ychwanegodd y Prif Weithredwr y byddai'r polisi ar becynnau ymadael yn ad-dalu ei hun mewn llai na phedair blynedd. Fodd bynnag, yn y mwyafrif o achosion, roedd y cyfnod ad-dalu lawer yn llai. Mae'r ffigurau ar gyfer cyflenwadau, gwasanaethau a grantiau wedi gostwng o ganlyniad i gollu Grant y Gronfa Gwella Cynllunio, gostyngiad yn nyranid y Gronfa Datblygu Cynaliadwy a gostyngiad yn y swm a wariwyd ar hysbysebu ceisiadau cynllunio drwy ddefnyddio papur newydd gwahanol.

Roedd cyfrif refeniw'r Awdurdod yn dangos bod cost net y gwasanaethau yn is na'r gyllideb a rhoddwyd crynodeb o'r prif resymau dros yr amrywiadau ar gyfer pob gwasanaeth. Drwy dynnu Grant y Parc Cenedlaethol a'r Ardoll allan, dangoswyd fod gan yr Awdurdod warged gweithredol net a ddiwedd y flwyddyn. Hefyd, bu trosglwyddiad net i gronfeydd wrth gefn a glustnodwyd, ac roedd cronfeydd wrth gefn wedi'u hychwanegu ar gyfer ail-wynebu meysydd parcio, lleihau Grant y Parc Cenedlaethol a'r Gronfa Datblygu Cynaliadwy.

Roedd y Rhaglen Gyfalaf i lawr o'i gymharu â 2013/14, a'r prif gostau oedd y prosiect Gwreiddiau. Erbyn hyn roedd yr holl arian grant wedi'i hawlio a'i dalu. Roedd symiau llai wedi'u talu am groesfan afon Sandy Haven (y cafwyd Grant Mynediad Llywodraeth Cymru ar ei gyfer), cerbydau ac ar gyfer ffenestri newydd yn Llanion.

Ac eithrio'r Gronfa Wrth Gefn Pensiynau nid oedd y fantolen gryno yn dangos unrhyw symudiadau arwyddocaol o gymharu â 2013/14. Roedd yr asedau sefydlog wedi gostwng o ganlyniad i ailbriso, ac roedd y ffigur ar gyfer dyledwyr i fyny oherwydd y grantiau a oedd yn ddyledus ar ddiwedd y flwyddyn ariannol. Fodd bynnag, roedd y rhain wedi cael eu talu erbyn hyn. I'r gwrthwyneb, roedd yr arian sy'n ddyledus gan yr Awdurdod wedi gostwng, oherwydd roedd y ffigur ar gyfer 2013/14 yn uwch oherwydd biliau parhaus yn ymwneud â'r prosiect Gwreiddiau. Bu cynnydd yn y rhwymedigaeth pensiwn o ganlyniad i ostyngiad yn y cyfraddau disgownt.

Gofynnodd yr Aelodau nifer o gwestiynau, gan gynnwys am y ffigurau o ran prisio asedau treftadaeth ac am eiddo buddsoddi, a chafwyd esboniadau gan y Rheolwr Cyllid.

NODWYD.



7. Y diweddaraf am yr Adolygiad o'r Cynllun Datblygu Lleol

Dywdodd Pennaeth Cyfeiriad y Parc iddi fod mewn cyfarfod gyda swyddogion Llywodraeth Cymru yn ddiweddar a ddywedodd y byddai rheoliadau a chanllawiau'r Cynllun Datblygu Lleol yn cael eu gosod gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru ar ddechrau mis Awst 2015. Ar ôl iddynt gael eu cyflwyno byddent ar gael i'w gweld ar wefan y Cynulliad. Byddai modd eu newid hyd at y dyddiad y deuai'r rheoliadau i rym ddiwedd mis Awst.

Aeth ymlaen i egluro bod swyddogion wedi bod yn gwneud gwaith ar yr adolygiad o'r Cynllun Datblygu Lleol yn barod erbyn cyhoeddi'r rheoliadau newydd, ac roedd bwriad i gynnal cyfres o weithdai gyda'r Aelodau yn ystod yr haf fel y gallai'r Adroddiad ar yr Adolygiad o'r Cynllun gael ei gwblhau. Fel rhan o hyn, byddai ymgysylltu â rhanddeiliaid ar Adroddiad yr Adolygiad yn cael ei drafod. Roedd y cyntaf o'r gweithdai hynny wedi'i drefnu ar gyfer y prynhawn hwnnw pan fyddai rhagor o fanylion yn cael eu darparu.

Roedd yr aelodau'n falch o weld bod rhywfaint o gynnydd o ran cyhoeddi'r rheoliadau a bod y gwaith ar adolygiad yr Awdurdod eisoes wedi dechrau.

NODWYD.

8. Melin Caeriw - To Newydd

Dywedodd y Swyddog Prosiectau Adeiladau fod adeiladwaith a gorchudd y to ym Melin Caeriw wedi'i fonitro'n fanwl fel rhan o'r rhaglen cynnal a chadw blynyddol. Fodd bynnag, dros y blynyddoedd diwethaf roedd y to wedi dirywio'n sylweddol ac yn ystod y cyfnod hwn roedd mân dyllau wedi cael eu selio ar sail ad hoc am gost sylweddol. Roedd cyrraedd y to yn broblem oherwydd ei fod yn uchel iawn ac am nad oedd modd cyrraedd yr ochr sy'n wynebu'r gorllewin. Er mwyn atal difrod pellach a diogelu'r strwythur mewnol, argymhellwyd bod y to newydd yn cael ei osod.

Roedd un Aelod yn pryderu ynghylch cost uchel y prosiect a gofynnodd a fyddai'n bosibl ail-ddefnyddio'r llechi presennol. Atebodd y swyddogion eu bod wedi archwilio'r to o'r tu mewn, ac nid oeddynt yn credu bod modd ail-ddefnyddio llawer o'r llechi, ond gellid ymchwilio i hynny. Byddai llechi da yn cael eu cadw beth bynnag i'w gwerthu.

Teimlai'r Aelodau eraill bod yr amcangyfrif yn rhesymol o ystyried maint y to a'r holl sgaffaldiau fyddai eu hangen. Fodd bynnag, holwyd am y broses dendro a fyddai'n cael ei gynnal. Atebodd y swyddog ei bod yn broses dau gam lle byddai datganiadau o ddiddordeb yn cael eu gwahodd ar wefan



Gwerthwch i Gymru. Byddai'r rhain yn cael eu sgorio, a rhestr fer o 6 yn cael eu gwahodd i dendro ar gyfer y prosiect.

PENDERFYNWYD cymeradwyo'r prosiect cyfalaf i adnewyddu to Melin Caeriw.

9. Buddsoddwyr mewn Pobl

Dywedwyd bod Awdurdod y Parc Cenedlaethol wedi cael gwobr Buddsoddwyr mewn Pobl yn 2000 ac wedi'i gadw mewn adolygiadau 3 blynedd ers hynny. Roedd cyfnod yr adolygiad nesaf yn agosáu, ac roedd yr adroddiad yn gofyn am farn yr Aelodau ynghylch a yw'r gost a'r amser a dreulir i ennill yr achrediad allanol hwn yn parhau i fod yn gosteffeithiol. Rhoddwyd sicrwydd, pe penderfynir tynnu'n ôl o'r wobwr, y byddai'r Awdurdod yn cadw ei ymrwymiad i'r egwyddorion a'r arferion a oedd wedi dod yn rhan annatod ohono ac na fyddai unrhyw arferion neu adnoddau yn cael eu tynnu'n ôl neu eu lleihau o ganlyniad. Ymgynghorwyd â'r staff hefyd ac roedd rhai o blaid ac eraill yn erbyn cadw'r wobwr. Roedd y mwyafrif o blaid gadael y wobwr.

Roedd rhai Aelodau'n fodlon, cyhyd â bod egwyddorion Buddsoddwyr mewn Pobl wedi eu hymgorffori o fewn y sefydliad, nad oedd angen ail-geisio am y wobwr. Tynnwyd sylw'r swyddogion at wobwr a oedd yn ymwneud â buddsoddi mewn amrywiaeth a theimlwyd y byddai'n werth ymchwilio i hynny. Roedd Aelodau eraill, fodd bynnag, yn teimlo y byddai'n werth ail-ymgeisio am y wobwr ac y byddai'n fuddiol i'r sefydliad gan ei fod yn asio perfformiad y staff gydag amcanion y sefydliad. Pe penderfynir peidio â chadw'r wobwr, gofynnwyd a allai'r Aelodau gael amlinelliad o'r egwyddorion a'r arferion a oedd ar waith, ac a allent gael gwybod am y canlyniadau.

PENDERFYNWYD na ddylai'r Awdurdod barhau i geisio achrediad Buddsoddwyr mewn Pobl o 2015 ymlaen.

10. Ymgynghoriad Papur Gwyrdd Llywodraeth Cymru: Gwella'r cyfleoedd i gael mynediad i'r awyr agored ar gyfer gweithgareddau hamdden cyfrifol

Soniwyd fod Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi'r Papur Gwyrdd uchod yn ddiweddar a bod yr Aelodau wedi cael copi ohono. Ynddo, cydnabu Llywodraeth Cymru'r manteision cymdeithasol ac economaidd a'r manteision i iechyd o gael mynediad i gefn gwlad ac roedd yn nodi nifer o egwyddorion yn ei gweledigaeth ar gyfer mynediad a hamdden awyr agored. Er mwyn cyflawni'r amcanion hyn cynigwyd nifer o awgrymiadau. Roedd y cynigion ar gyfer newid yn cael eu rhannu yn dair prif adran:



mynediad i dir, mynediad i ddŵr, a mynediad i'r arfordir. Hefyd trafodwyd yn fyr y cynnig i ddatblygu Cod Statudol newydd yn lle'r Cod Cefn Gwlad.

Mae Awdurdod y Parc Cenedlaethol yn cefnogi'n gryf yr ymrwymiad gan Lywodraeth Cymru i ddarparu mwy o amrywiaeth o gyfleoedd mynediad i gefn gwlad Cymru a chynyddu lefelau cyfranogiad ar gyfer ystod eang o weithgareddau awyr agored. Er bod swyddogion yn croesawu'r rhai o'r cynigion, megis ailwampio'r gweithdrefnau, roedd manteision yr elfennau eraill yn llai sicr, a byddai'n rhaid i'r ymateb i'r ymgynghoriad gael ei gefnogi gan dystiolaeth ar sail profiad. Dywedodd y swyddogion y byddai'r Awdurdod yn gweithio gyda Awdurdod Parciau Cenedlaethol Eryri a Brycheiniog i gynhyrchu ymateb tri Pharc, yn ogystal â chynnal trafodaethau gyda Fforwm Mynediad Lleol Sir Benfro, er mwyn llywio ymateb yr Awdurdod.

Diolchwyd i'r swyddogion am adroddiad da, a chytunodd yr Aelodau ag egwyddor gyffredinol gweithgareddau hamdden cyfrifol a'r angen am addysgu'r cyhoedd yn hyn o beth. Fodd bynnag, roedd amrywiaeth barn am nifer o'r cynigion yn y ddogfen. Awgrymwyd y gallai gweithdy i drafod y Papur Gwyrdd fod yn ddefnyddiol ac awgrymodd y Swyddog Mynediad a Hawliau Tramwy fod yr Aelodau yn mynychu cyfarfod y Fforwm Mynediad Lleol ar 4 Medi lle byddai cynrychiolaeth o nifer o grwpiau lleol. Y gobaith oedd y byddai ymateb y tri Pharc yn cael ei roi gerbron cyfarfod o'r Awdurdod ar 23 Medi.

NODWYD.

11. Cynnig i gladdu'r llinellau trydan presennol: Fferm Treginnis, Tyddewi a Phen Dinas

Dywedwyd bod Western Power Distribution wedi ehangu ei gynllun i osod y llinellau trydan o dan y ddaear yn ei gynllun busnes 8 mlynedd presennol drwy ddyrannu £1.3 miliwn arall. Byddai hyn yn talu am gladdu'r rhannau hynny o'u rhwydwaith cyflenwi trydan a ystyriwyd yn fwyaf niweidiol i rinweddau arbennig pedair tirwedd warchoddedig, sef AHNE Gŵyr a Dyffryn Gwy, a Pharciau Cenedlaethol Arfordir Penfro a Bannau Brycheiniog. Atgoffwyd yr Aelodau fod yr Awdurdod eisoes wedi cyflwyno pum cynllun gwella tirwedd llwyddiannus yn ystod y cyfnod 2010/15 ym Mhen Strwmbll, Gorllewin Angle, Martins Haven, St. Non a Chaerfarchell.

Bellach, roedd cynlluniau ar gyfer Fferm Treginnis, Tyddewi a Phen Dinas ac roedd manylion y rhain, a manteision gwaith o'r fath, yn yr adroddiad. Roedd y swyddogion o'r farn bod hyn yn gyfle rhagorol i sicrhau manteision



gweledol parhaol o fewn dau o leoliadau mwyaf eiconig y Parc Cenedlaethol gyda 100% o arian allanol. Yn amodol ar gael unrhyw gydsyniad angenrheidiol / cyfreithiol, byddai'r gwaith ar y safle yn cael ei wneud gan Western Power Distribution a gellid ei gwblhau yn ystod 2015/16.

Croesawodd yr aelodau'r cynlluniau ond gofynnwyd a fyddai modd annog Western Power Distribution i fuddsoddi mwy ar waith fel hyn, a chyfeiriwyd at fannau eraill a allai elwa ar gladdu ceblau. Atebodd y Swyddogion fod gwrthwynebiad i hyn gan randdeiliaid gan fod y gwaith yn cael ei ariannu gan dalwyr biliau. Hefyd, roedd rhai cynlluniau yn gofyn am gladdu llinellau ffôn yn ogystal â cheblau trydan er mwyn cael y budd mwyaf posibl ac nid oes gan BT gyllideb ar gyfer claddu ceblau.

PENDERFYNWYD cymeradwyo barn y swyddogion yn yr adroddiad a'r meini prawf dethol a oedd ynghlwm, a bod y gwaith tuag at gladdu'r ceblau yn Fferm Treginnis, Tyddewi a Phen Dinas yn cael ei awdurdodi cyn gynted ag y bo'n rhesymol bosibl.

[Ymddiheurodd Mr T Sangster a gadawodd y cyfarfod ar y pwynt hwn.]

12. Adroddiad Terfynol Prosiect Mosaic Cymru

Soniwyd mai nod y prosiect Mosaic oedd "meithrin cysylltiadau cynaliadwy hirdymor rhwng cymunedau pobl dduon a lleiafrifoedd ethnig a Pharciau Cenedlaethol Cymru". Roedd y prosiect wedi dechrau ym mis Ionawr 2012 a daeth i ben ym mis Mawrth 2015. Cafodd ei arwain gan Ymgrych y Parciau Cenedlaethol mewn partneriaeth â'r Gymdeithas Hosteli Ieuentid a'r tri Awdurdod Parc Cenedlaethol yng Nghymru.

Y sail resymegol ar gyfer prosiect Mosaic Cymru oedd bod pobl o leiafrifoedd ethnig yn cael eu tangynrychioli'n sylweddol ymysg ymwelwyr â holl Barciau Cenedlaethol Cymru a Lloegr. Mae gan y Parciau Cenedlaethol gyfrifoldeb statudol i hyrwyddo cyfleoedd i'r cyhoedd ddeall a mwynhau'r Parciau Cenedlaethol. Felly roedd y cynllun Mosaic yn canolbwyntio ar y cysyniad o Hyrwyddwyr Cymunedol, sef unigolion a recriwtiwyd o gymunedau lleiafrifoedd ethnig mewn ardaloedd trefol a leolir yn agos at y Parciau Cenedlaethol. Cafodd yr Hyrwyddwyr eu hyfforddi mewn ystod o sgiliau a fyddai'n eu galluogi i hyrwyddo'r Parciau Cenedlaethol o fewn eu cymunedau lleol.

Ynghlwm wrth yr adroddiad gerbron yr Aelodau oedd roedd Adroddiad Prosiect Mosaic Cymru a oedd yn rhoi gwerthusiad o'r prosiect cyfan ac a



oedd yn cynnwys gwerthusiad a wnaed gan Bartneriaeth Gilfillan a gyflogwyd fel gwerthuswyr allanol gan yr Ymgyrch y Parciau Cenedlaethol.

Yn olaf, roedd yr adroddiad yn cyflwyno cynlluniau i'r dyfodol ar gyfer Mosaic yn y Parc Cenedlaethol a oedd yn cynnwys cynllun olyniaeth, a oedd yn ymrwymo'r Awdurdod i ddarparu cefnogaeth i Hyrwyddwyr Mosaic ynghyd â chyllideb fach i alluogi gweithgareddau, a manylion cais a baratowyd gan Ymgyrch y Parciau Cenedlaethol ar gyfer prosiect i olynu Mosaic Cymru.

Roedd yr Aelodau'n falch o glywed am lwyddiant prosiect ardderchog fel hwn ac yn cefnogi'r gwaith i barhau â'r fenter drwy'r cynllun olyniaeth a'r prosiect olynol. Teimlent hefyd y dylid rhoi mwy o gyhoeddusrwydd i'r gwaith cynhwysiant cymdeithasol a wneir gan y tîm Darganfod.

PENDERFYNWYD bod yr adroddiad yn cael ei nodi a chymorth yn cael ei roi i barhau â'r prosiect Mosaic.

13. Aelodau Pwyllgorau

Atgoffwyd yr Aelodau gan Reolwr y Gwasanaethau Gweinyddol a Democrataidd y soniwyd yn y Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol y byddai aelodau'r Pwyllgor Ymchwilio a Disgyblu, y Pwyllgor Cwynion a'r Pwyllgor Apelu yn cael eu cadarnhau pan fyddai Cadeiryddion a Dirprwy Gadeiryddion yr Awdurdod a'r Pwyllgorau perthnasol eraill wedi'u penodi. Roedd y penodiadau hynny bellach wedi'u gwneud ac roedd cyfansoddiad posibl ar gyfer y Pwyllgorau hyn yn yr adroddiad.

PENDERFYNWYD bod aelodau'r Pwyllgorau yn cael eu cadarnhau fel a ganlyn:

Y Pwyllgor Ymchwilio a Disgyblu

Y Cynghorydd M James, Cadeirydd Awdurdod y Parc Cenedlaethol
Mr A Archer, Dirprwy Gadeirydd y Pwyllgor Adolygu Gwasanaethau
Archwilio a Chorfforaethol
Ms C Gwyther
Y Cynghorydd P Harries
Y Cynghorydd R Owens

Y Pwyllgor Cwynion

Y Cynghorydd M Williams, Cadeirydd y Pwyllgor Adolygu Gwasanaethau
Archwilio a Chorfforaethol
Y Cynghorydd RM Lewis, Dirprwy Gadeirydd y Pwyllgor Rheoli Datblygu



Mr AE Sangster
Mrs M Thomas
Y Cynghorydd A Wilcox

Pwyllgor Apelau

Mrs G Hayward, Cadeirydd y Pwyllgor Rheoli Datblygu
Mr D Ellis, Dirprwy Gadeirydd Awdurdod y Parc Cenedlaethol
Y Cynghorydd Mrs Lyn Jenkins
Y Cynghorydd PJ Morgan
Y Cynghorydd D Rees

14. Safonau Iaith Gymraeg: Ymgynghori ar Hysbysiad Cydymffurfio [Adran 47 Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011]

Soniwyd bod y Mesur a grybwyllir uchod yn sefydlu fframwaith ar gyfer cyflwyno dyletswyddau ar bersonau i gydymffurfio â safonau statudol sy'n ymwneud â'r Gymraeg. Byddai'r safonau yn disodli'r system bresennol o gynlluniau iaith Gymraeg a sefydlwyd o dan Ddeddf yr Iaith Gymraeg 1993. Yn ystod y 18 mis diwethaf, roedd Comisiynydd y Gymraeg wedi rhoi nifer o gyfleoedd i bartïon â diddordeb i roi tystiolaeth ac i ddatgan eu barn am y safonau.

Daeth Rheoliadau Safonau'r Gymraeg (Rhif 1) 2015 i rym ar 31 Mawrth 2015 ac roedd yn awdurdodi Comisiynydd y Gymraeg i gyhoeddi hysbysiad cydymffurfio a oedd yn ei gwneud yn ofynnol i sefydliadau gydymffurfio ag un neu ragor o'r safonau a oedd yn gymwys iddynt. Roedd yr Awdurdod wedi cael hysbysiad cydymffurfio drafft ar 26 Mehefin, ac roedd ynghlwm wrth yr adroddiad. Roedd ganddo gyfle nawr i wneud sylwadau ynghylch a yw'r safonau a gynhwysir o fewn yr hysbysiad yn rhesymol ac yn gymesur, a cheisiwyd barn yr Aelodau ar yr ymateb drafft a ddisbarthwyd cyn y cyfarfod. Dywedwyd fod estyniad wedi ei roi i ddyddiad cau'r ymgynghoriad i ganiatáu i Awdurdod y Parc Cenedlaethol ystyried yr adroddiad hwn.

Dywedodd Rheolwr y Gwasanaethau Gweinyddol a Democrataidd fod yr Awdurdod yn cydymffurfio â nifer o'r safonau yn barod, tra gallai mesurau i gydymffurfio ag eraill gael eu cyflwyno yn weddol hawdd. Fodd bynnag, byddai eraill yn fwy heriol o ran amserlen, biwrocratiaeth a goblygiadau o ran adnoddau. Ychwanegodd y Prif Weithredwr fod yr Awdurdod o dan anfantais oherwydd ei faint am fod rhai gwasanaethau yn cael eu cyflawni gan un swyddog arbenigol yn hytrach na chan dîm o bobl, ac roedd llawer o'r rheini yn ddi-Gymraeg; fodd bynnag, roedd wedi siarad â Chomisiynydd y Gymraeg ac roedd yn credu y byddai'n cymryd agwedd ymarferol tuag at gydymffurfio, yn enwedig o ran yr amserlen.



Er eu bod yn awyddus i gefnogi'r Gymraeg, roedd rhai Aelodau'n pryderu am y gost o weithredu'r safonau ar adeg o gyfyngiadau ar y gyllideb ac roeddynt hefyd yn pryderu am allu'r sector cyfieithu Cymraeg i wneud y gwaith. Fodd bynnag, roedd cefnogaeth i'r cyfeiriad a ddarperir yn y Rheoliadau.

PENDERFYNWYD cytuno ar y ffurflen ymateb i'r ymgynghoriad ar gyfer yr hysbysiad cydymffurfio drafft a gyhoeddwyd gan Gomisiynydd y Gymraeg yn unol ag Adran 47 o Fesur y Gymraeg (Cymru) 2011 yn amodol ar y sylwadau uchod.

[Ymddiheurodd y Cynghorydd M Williams a gadawodd y cyfarfod yn ystod y drafodaeth ar yr eitem ganlynol.]

15. Adroddiad Terfynol a Chanfyddiadau Cyd-Grŵp Craffu'r Parciau Cenedlaethol ar yr Economi

Cyflwynwyd yr adroddiad gan Gadeirydd y Cyd-Grŵp Craffu, Mrs Gwyneth Hayward, ac amlinellodd rai o'r materion a godwyd gan y rhai a oedd wedi rhoi tystiolaeth i'r Grŵp. Diolchodd i aelodau'r Grŵp, yn enwedig Mr Ted Sangster, a oedd wedi gweithio'n galed i gwblhau'r adroddiad, a diolchodd hefyd i swyddogion y ddau Awdurdod am eu cefnogaeth.

Diolchodd aelodau'r Grŵp i Mrs Hayward am ei gwaith caled yn cynhyrchu'r adroddiad. Soniwyd hefyd eu bod wedi dysgu llawer, gan gynnwys y pwysigrwydd o feithrin perthynas well â rhanddeiliaid, ac yn enwedig gwrando ar yr hyn oedd ganddynt i'w ddweud. Tynnwyd sylw at y pwysigrwydd o ddatblygu Polisi Ymgysylltu â Rhanddeiliaid a gofynnwyd a ellid llunio aroddiad am hyn ar gyfer cyfarfod o'r Awdurdod yn y dyfodol. Teimlai'r aelodau hefyd y byddai'r adroddiad craffu yn werthfawr wrth adolygu'r Cynllun Datblygu Lleol dros y misoedd nesaf.

I gloi, dywedodd Mrs Hayward y byddai hi'n siarad â swyddogion ynglŷn â chynllun gweithredu i fwrw ymlaen â'r argymhellion yn yr adroddiad, a byddai'r cynnydd ar hyn yn cael ei adrodd i gyfarfod yn y dyfodol.

PENDERFYNWYD bod adroddiad terfynol a chanfyddiadau Cyd-Grŵp Craffu'r Parciau Cenedlaethol ar yr Economi yn cael eu cymeradwyo.

